# TIWTOR SSIE

# Amser Tymor yn unig

# Abertawe

# Pecyn Cais

Diolch am eich diddordeb yn y rôl uchod ac yn ein Sefydliad.

Yn y pecyn cais hwn fe welwch y wybodaeth ganlynol:

- Gwybodaeth am Addysg Oedolion Cymru
- Trosolwg y Rôl
- Yr hyn y gallwn ei gynnig i chi
- Sut i wneud cais
- Proffil Rôl a Manyleb Person
- Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen gais am swydd

Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i greu amgylchedd gwaith cynhwysol. Credwn fod cael gweithlu amrywiol ar bob lefel yn ein galluogi i gynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae safbwyntiau a phrofiadau amrywiol yn hanfodol i'n llwyddiant, ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o unrhyw gefndir sydd gyda'r profiad a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r rôl hon.

**Os cewch unrhyw anawsterau neu os oes angen y ffurflen arnoch mewn fformat gwahanol, cysylltwch drwy anfon neges i recruitment@adultlearning.wales**

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

## Gwybodaeth am Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales

Sefydliad Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) cenedlaethol yw Addysg Oedolion Cymru (AOC) ac mae’n unigryw yng Nghymru, gan ei fod yn canolbwyntio’n llwyr ar yr elfen hon o’r sector addysg.

Gwelwn ein cenhadaeth fel ‘Darparwr cyfleoedd dysgu ysbrydoledig a hygyrch i oedolion ledled Cymru a chefnogi ein dysgwyr i gyflawni canlyniadau llwyddiannus, yn uniongyrchol a thrwy berthnasoedd ag eraill.’

Mae ein cynnig yn eang, o sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg, Saesneg, rhifedd, digidol, iechyd personol a chyllid, hyd at gymwysterau sy'n darparu llwybrau i Addysg Uwch. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau mewn pynciau sy'n gysylltiedig gyda hobïau neu ddiddordebau arbennig gan y gall pob dysgu gael effaith gadarnhaol. Ym mlwyddyn academaidd 2022/23, cyflawnwyd dros 18,000 o gofrestriadau, gyda darpariaeth i dros 9,000 o unigolion.

I lawer, gall ein cyrsiau fod y tro cyntaf iddynt gymryd rhan mewn dysgu ffurfiol ers gadael addysg draddodiadol ac yn gam grymusol ar y ffordd i gyflawni eu nodau. Trwy ble, pryd, a sut rydym yn cynnig cyfleoedd dysgu, ein nod yw helpu a chefnogi unigolion trwy eu profiad dysgu gyda ni, i ysbrydoli ac adeiladu eu hyder a'u sgiliau.

Mae dysgu wyneb yn wyneb wrth wraidd ein darpariaeth gan fod hyn yn hwyluso manteision ehangach o gyfarfod gyda'n gilydd i ddysgu. Cynhelir ein cyrsiau ledled Cymru, mewn lleoliadau o fewn y cymunedau lle mae pobl eisoes yn teimlo'n gartrefol, gan ddileu'r rhwystr o orfod mynd i gampws ffurfiol. Er mwyn cefnogi dysgwyr nad ydynt yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth wyneb yn wyneb, rydym yn parhau i gynnal cynnig ar-lein, gan alluogi dysgwyr i ymgysylltu â'n sefydliad a bod yn rhan o gymuned ehangach.

Ym mhopeth rydym yn ei gynnig, ein nod bob amser yw darparu addysgu a dysgu rhagorol mewn ffordd sy’n gynhwysol gan ganolbwyntio ar anghenion dysgwyr. Ar gyfer y cyrsiau heb gymhwyster, gall ein dysgwyr ddylanwadu ar yr hyn a gynhigid nesaf, er mwyn eu hannog i barhau â'u taith ddysgu.

Mae’r rhan fwyaf o’n cyrsiau yn rhad ac am ddim i’r dysgwr, gan eu bod yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru neu un o’r sefydliadau niferus rydym yn gweithio gyda nhw, ac mae gennym arlwy helaeth o Gymorth i Ddysgwyr gall helpu i waredu rhwystrau eraill i ddysgu. Mae hyn yn cynnwys cymorth i fynychu cyrsiau ar ffurf cyllid gofal plant neu gludiant, benthyg offer TG neu fynediad at becynnau TG penodol, yn ogystal â chymorth llesiant cyffredinol.

Wedi’n cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel arbenigwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned, rydym yn adnabyddus i fynd cam ymhellach i alluogi a chefnogi dysgu i bawb, ac yn aml yn darparu i unigolion sydd mewn amgylchiadau heriol. Mae llawer o’n dysgwyr yn dweud wrthym fod eu profiad gydag AOC wedi newid bywydau, adborth sy’n ein hysbrydoli i weithio’n galetach i ddarparu ar eu cyfer.

Yn elusen gofrestredig, cwmni cyfyngedig a Sefydliad Addysg Bellach dynodedig, ffurfiwyd AOC yn 2016 o ganlyniad i uniad sefydliadau etifeddol gan gynnwys WEA Cymru, Coleg Cymunedol YMCA a Choleg Harlech. Felly, er ein bod yn sefydliad ifanc, rydym yn adeiladu ar yr etifeddiaeth gref ac mae gennym ddyfodol cyffrous o'n blaenau.

## Trosolwg y Rôl

Mae gennym gyfle gwych i diwtor SSIE medrus a chymwys i gyflwyno dysgu SSIE o ansawdd uchel i ddysgwyr yn ardal Abertawe. Mae hon yn swydd rhan amser, cyflogedig, amser tymor yn unig, hyd at ddiwedd Gorffennaf 2025, i ddechrau mis Medi 2024. Byddwch yn cynllunio, darparu, cyflwyno, gwerthuso ac asesu cyrsiau SSIE a rhaglenni dysgu yn unol ag anghenion dysgwyr a phrosesau a gweithdrefnau Ansawdd Addysg Oedolion Cymru. Byddwch yn cyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel gan ddefnyddio ystod o ddulliau addysgu ac yn defnyddio ystod o ddulliau asesu priodol yn unol ag anghenion dysgwyr a gofynion y corff dyfarnu. Byddwch yn sicrhau bod dysgwyr yn cael adborth clir ac adeiladol o fewn amserlenni priodol.

**Dull Cyflwyno:** Wyneb-i-Wyneb

**Lleoliad addysgu:** Princess House, Ffordd y Dywysoges, Abertawe SA1 3LW

**Amserlen Addysgu:** Dydd Llun – Dydd Gwener, 9.30 – 1.30
Mae hon yn swydd Amser Tymor yn Unig am 28 awr yr wythnos dros dymor o 39 wythnos yn dechrau ym mis Medi 2024, gyda 20 awr o amser addysgu ag 8 awr o amser cynllunio a darparu.

Os hoffech sgwrs anffurfiol neu i glywed mwy am y rôl cysylltwch â Beth John, Rheolwr Rhanbarthol De Orllewin a Chanolbarth, beth.john@adultlearning.wales

## Yr hyn y gallwn ei gynnig i chi

- I fyny at £35,773 pro rata, y flwyddyn yn dibynnu ar brofiad
- Cynllun Pensiwn Athrawon
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus

## Sut i wneud cais

Gwnewch gais drwy ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein neu'r cais fersiwn Word a'i ddychwelyd i **Recruitment@adultlearning.wales** nue lanlwytho drwy ein gwefan

**Sylwch na fydd CVs heb ffurflen gais wedi'i chwblhau yn derbynniol.**

Y dyddiad cau ar gyfer y swydd hon yw **9.00yb Dydd Mercher 31ain Gorffennaf 2024**

Fel rhan o'r broses gyfweld gofynnir i chi gyflwyno sesiwn meicroaddysgu 15 munud, a darparu cynllun gwers, cynllun gwaith, ac unrhyw adnoddau ar gyfer y sesiwn hon.

Mae Addysg Oedolion Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu ei weithlu dwyieithog. Gellir cyflwyno ceisiadau am unrhyw swydd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.

**<u>Proffil Rol – Tiwtor SSIE</u>**

**Teitl y Swydd:** Tiwtor SSIE

**Lleoliad Gwaith:** Princess House, Ffordd y Dywysoges, Abertawe SA1 3LW

**Diben y swydd:** I gynllunio, datblygu, cyflwyno, gwerthuso ac asesu cyrsiau SSIE a rhaglenni dysgu yn unol ag anghenion dysgwyr a phrosesau a gweithdrefnau Ansawdd Addysg Oedolion Cymru, i helpu i ddarparu dysgu o ansawdd uchel.

Ymgymryd â thasgau gweinyddol yn unol â'r rheoliadau ar gyfer cyllido Addysg Oedolion Cymru a dyfarnu credydau i ddysgwyr.

Mynychu cyfarfodydd tiwtoriaid perthnasol a chyfarfodydd Achredu/Safoni priodol, a dysgu am y datblygiadau diweddaraf o fewn eich cwricwlwm neu faes arbenigol. Mynychu a chymryd rhan yn yr holl gyfarfodydd perthnasol y dysgwr a'r tiwtor. Mynychu a rhoi mewnbwn i weithgareddau datblygu / dilysu a safoni.

**Hyd y cytundeb:** Cyfnod penodol at Gorffennaf 2025 Amser Tymor yn unig

**Oriau gwaith:** Rhan amser - 28 awr yr wythnos, amser tymor yn unig. Bydd hyn yn 20 awr o amser cyflwyno dysgu a 8 awr o amser cynllunio, paratoi a marcio ayb dros 39 wythnos.

**Graddfa Cyflog:** MG1T-MG4T £29,963 - £35,773 pro rata y flwyddyn

**Yn atebol i:** Rheolwr Rhanbarthol

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**

1. Cynllunio a Pharatoi Cyrsiau

- Paratoi cynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith ar gyfer rhaglenni dysgu sy'n cwrdd â chanlyniadau dysgu ac sy'n gyson â gofynion cyrff dyfarnu fel y bo'n briodol
- Cynllunio sesiynau dysgu yn unol â Gweithdrefnau Ansawdd Addysg Oedolion Cymru.
- Sicrhau bod Sgiliau Hanfodol yn cael eu hymgorffori yn y rhaglenni dysgu ble bynnag yn bosib.
- Dewis amrywiaeth o ddulliau dysgu i gwrdd ag anghenion Dysgwyr
- Annog dysgu unigol a hwyluso dysgu drwy brofiad.
- Defnyddio deunyddiau dysgu ac ymgorffori dulliau e-ddysgu fel y bo'n briodol i gefnogi dysgu.
- Rhoi sylw digonol i themâu trawsbynciol sef Sgiliau Hanfodol, ADCDF, dimensiwn Cymreig a dwyieithrwydd
- Cydymffurfio â safonau dysgu ac addysgu proffesiynol
- Datblygu adnoddau asesu

2. Cefnogi dysgwyr

- Asesu profiadau a chyflawniadau dysgu blaenorol y Dysgwyr, rhoi cyngor ac arweiniad priodol iddynt a sicrhau bod Dysgwyr yn gwybod am y llwybrau dilyniant
- Sicrhau bod dysgwyr yn gwybod am ac yn gallu cyrchu gwasanaethau cymorth ac arweiniad a'u bod yn derbyn copi o Lawlyfr y Myfyrwyr
- Sefydlu a chynnal amgylchedd dysgu diogel ac effeithiol

- Hwyluso’r broses o sicrhau bod y Dysgwyr hynny sy’n dymuno dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny
- Gwahaniaethu dysgu i ddiwallu anghenion unigolion

3. Cyflwyno cyrsiau a rheoli’r broses ddysgu
    - Cyflwyno dysgu o ansawdd uchel gan ddefnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau dysgu, gan gynnwys strwythuro sesiynau yn briodol i sicrhau cyflymder addas a chadw diddordeb
    - Darparu cyfleoedd i Ddysgwyr ddatblygu sgiliau sylfaenol, digidol a Chymraeg
    - Cynnal perthynas waith effeithiol gyda’r Dysgwyr
    - Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â’r Rheolwr Rhanbarthol ag aelodau’r tîm.
    - Darparu diweddariadau o ran niferoedd dysgu a newidiadau cwrs

4. Materion ansawdd ac asesu canlyniadau
    - Cydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau Addysg Oedolion Cymru sy’n berthnasol i’r rôl Tiwtor, fel sy’n cael ei nodi’n flynyddol yn y pecyn Addysgu a Dysgu a Gwirio ar y Rhwydwaith Addysgu a Dysgu (SharePoint).
    - Defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu priodol yn unol ag anghenion y Dysgwyr a gofynion y corff dyfarnu fel y bo’n briodol, a rhoi gwybod amdanynt i’r Dysgwyr
    - Sicrhau bod y Dysgwyr yn derbyn adborth ysgrifenedig a llafar eglur ac adeiladol yn brydlon
    - Cwblhau hunanasesiad blynyddol y Tiwtor Rhan-Amser unigol
    - Trafod, cynnal a monitro Cynlluniau Dysgu Unigol a chofnodion asesu yn unol â Gweithdrefnau Ansawdd Addysg Oedolion Cymru.
    - Cyflwyno cofnodion amserol a chywir
    - Sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd i roi adborth
    - Datblygu dulliau Asesu
    - Cymryd rhan mewn arsylwadau addysgu neu droeon dysgu pan yn briodol, wedi’u cytuno â’r Rheolwr Rhanbarthol
    - Cymryd rhan mewn gweithgareddau Sicrhau Ansawdd Mewnol, yn unol â gweithdrefnau ansawdd y sefydliad

5. Hunanddatblygiad a chynllunio aferion at y dyfodol
    - Yn meddu ar, neu'n gweithio tuag at, gymhwyster addysgu Lefel 5 neu uwch
    - Gwerthuso eich arferion eich hun mewn perthynas ag anghenion y Dysgwyr, rhaglen ac anghenion y Sefydliad
    - Defnyddio adborth o Weithdrefnau Ansawdd Addysg Oedolion Cymru i wella eich arferion eich hun
    - Mynychu dyddiau Tiwtoriaid blynyddol, sesiynau briffio ansawdd a chyfarfodydd Achredu/Safoni priodol
    - Rhannu ymarferion da
    - Dysgu am ddatblygiadau presennol o fewn eich cwricwlwm neu faes arbenigol
    - Defnyddio techneg ymarfer myfyriol i wella’n barhaus a datblygu.
    - Cofrestru fel aelod o’r Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu at bwrpas cynllunio, paratoi a DPP.

6. Cyffredinol
    - Cydymffurfio â’r Canllawiau mewn perthynas â rôl Tiwtor.
    - Cadw cysylltiad â'ch Rheolwr Rhanbarth/ Cydlynydd Darpariaeth/ Swyddog Cyflenwi Cwricwlwm/ Gweinyddwr Cymorth Rhanbarthol, a rhoi gwybod iddo / iddi yn syth am unrhyw newidiadau, canslo cwrs neu faterion arwyddocaol eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mewn argyfwng, cysylltwch â’r Swyddfa Ranbarthol.
    - Cadw mewn cysylltiad a chysylltu â’r Cangen neu bartner sefydliad, lle y bo'n briodol.
    - Ymgymryd â thasgau gweinyddol yn unol â rheoliadau ar gyfer cyllido Addysg Oedolion Cymru.

- Ymdrechu i gefnogi ac ymarfer cyfle cyfartal ar gyfer Dysgwyr a staff Addysg Oedolion Cymru.
- Cymryd gofal rhesymol dros eich iechyd a diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill fel sy’n briodol yn y gweithle a chydymffurfio â’r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch
- Cynnal pob gweithgaredd yn unol â'r côd ymarfer a osodir gan y Cyngor y Gweithlu Addysg.
- Hyrwyddo Cyfle Cyfartal.
- Cyflenwi yn ystod absenoldebau salwch ac absenoldebau eraill yn ôl y gofyn

- Fel un o delerau eich cyflogaeth, mae’n bosibl y bydd angen i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill, sy’n gymesur â’ch graddfa gyflog
- Dyma ddisgrifiad o’r swydd fel y mae ar hyn o bryd. Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn archwilio disgrifiadau swydd y gweithwyr o bryd i’w gilydd ac yn eu diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i’r swydd fel y mae’n cael ei chyflawni, neu i ymgorffori unrhyw newidiadau sy’n cael eu cynnig.
- Nid bwriad y disgrifiad hwn yw rhoi diffiniad terfynol o’r swydd, ond, yn hytrach, amlinelliad o’r dyletswyddau.

**Manyleb Bersonol - Tiwtor**

| MEINI PRAWF | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| **ADDYSG, HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU** | Tystysgrif Dysgu leiafswm Lefel 5, neu yn fodlon gweithio tuag at y cymhwyster<br><br>Cymwysterau Ymarferydd ESOL Lefel 3 neu uwch:<br><br>• CELTA<br>• DELTA<br>• TESOL<br>• Cymhwyster Ymarferydd ESOL Lefel 3<br><br>Wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg | Dyfarniad Asesydd Lefel 3<br><br>Cymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol Lefel 4<br><br>Tystysgrif Lefel 5 mewn cyflwyno SSIE |
| **PROFIAD** | Profiad o addysg cymunedol ag addysg oediolon, ac arbenigedd yn y pwnc i'w gyflwyno<br><br>Profiad o gynllunio cwricwlwm ac asesu gan gynnwys datblygu deunyddiau addysgu a dysgu<br><br>Profiad o weithredu a chymryd rhan mewn gweithdrefnau ansawdd mewnol<br><br>Profiad o weithio mewn partneriaeth, a rhwydweithio ag asiantaethau eraill yn y sector gwirfoddol, cymunedol a statudol | Profiad o gyflwyno cyrsiau addysgol gan ddefnyddio methodolegau dysgu cyfunol<br><br>Profiad o addysgu mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm |
| **SGILIAU, GWYBODAETH, AGWEDD** | Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol<br><br>Sgiliau trefnu, cydlynu a gweinyddu rhagorol<br><br>Sgiliau TG cynhwysfawr, gan gynnwys Word ag E-bost, y gallu i gael mynediad at ddata<br><br>Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac ar eich menter eich hun | Dealltwriaeth o fframweithiau ansawdd a gweithdrefnau achredu<br><br>Yn gyfarwydd â gwerthoedd a phrosesau dysgu oedolion<br><br>Gwybodaeth am dechnolegau dysgu digidol<br><br>Y gallu i addysgu/cyflwyno'n ddwyieithog |

| | | |
|---|---|---|
| | Gallu datblygu perthnasoedd gwaith da gyda phobl ar bob lefel, gan gynnwys gyda grwpiau cymunedol<br><br>Y gallu i asesu dysgwyr<br><br>Y gallu i gefnogi anghenion dysgu gwahaniaethol<br><br>Y gallu i gynghori a chefnogi dysgwyr<br><br>Gallu blaenoriaethu a chynllunio llwyth gwaith eich hun<br><br>Gallu ysgogi ac annog dysgwyr annhraddodiadol<br><br>Ymrwymiad i Gyfle Cyfartal<br><br>Ymrwymiad i wneud cynnig gweithredol o ddwyieithrwydd<br><br>Parod i dderbyn hyfforddiant er mwyn ymestyn ei sgiliau | |
| **PATRWM GWAITH** | Fodlon gweithio’n hyblyg, gan gynnwys rhywfaint o waith yn ystod y penwythnos a’r nosweithiau | |
| **GOFYNION ERAILL** | Yn fodlon teithio yn ôl y gofyn<br><br>Ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig | Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl |

# Canllaw ar gyfer cwblhau ffurflen gais am swydd

**Byddwch angen** y ddogfen canlynnol ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais:-

- **Proffil Rôl** ar gyfer y swydd yr ydych yn ymgeisio amdani
- **Manyleb Person** (hwn yw'r adran olaf ar y ddogfen proffil rôl) ar gyfer y swydd yr ydych yn ymgeisio amdani

❖ **Darllenwch y dogfennau cyn cwblhau'ch cais**. Sicrhewch eich bod yn deall gofynion y swydd, o ran **dyletswyddau a chyfrifoldebau'r** swydd **(y manylir arnynt yn y proffil rôl**) a'r **gofynion personol** i allu cyflawni'r dyletswyddau hynny **(y manylir arnynt yn y manyleb person).**

❖ **Gwiriwch eich bod yn gallu cwrdd â'r gofynion Hanfodol** yn y manyleb person a'ch bod o'r farn y gallech gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llwyddiannus, yn dilyn cyfnod rhesymol o gyfarwyddyd ac ymgyfarwyddo.

❖ **Sicrhewch eich bod yn egluro yn yr adran Datganiad Personol - sut rydych chi'n cwrdd â gofynion y manyleb person ac yn nodi, gan ddarparu enghreifftiau lle bynnag yn bosibl sut y gall eich sgiliau a'ch profiad fod yn gysylltiedig â dyletswyddau'r swydd.** Peidiwch ag anghofio, er y bydd eich profiad gwaith yn bwysig ei gynnwys yn eich cais, gallai profiad arall a gafwyd y tu allan i'r gwaith mewn sefydliadau cymunedol a gwirfoddol neu fuddiannau hamdden, fod yr un mor ddilys. Cadwch eich cais yn gryno ac i'r pwynt.

❖ **COFIWCH** bydd y penderfyniad ynghylch a fyddwch chi'n cael eich gwahodd i gyfweliad ai pheidio yn seiliedig ar y wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn eich Datganiad Personol. Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn cwblhau'r adran datganiad personol i ddangos sut rydych chi'n cwrdd â'r gofynion ar gyfer y rôl hon. Bydd y datganiad personol gorffenedig yn darparu'r **rhan fwyaf** o'r wybodaeth y bydd ei hangen arnom i asesu'ch cais yn erbyn meini prawf y manyleb person.

❖ **Darllenwch eich cais**. Gwiriwch eich bod wedi cwblhau pob rhan o'r broses. Os oes mwy nag un lleoliad ar gyfer y swydd neu os cynigii rannu'r swydd, nodwch eich dewisiadau ar y ffurflen gais.

❖ **Cyflwyno eich cais gorffenedig** cyn yr amser a dyddiad cau drwy e-bost at recruitment@adultlearning.wales nue lanlwytho drwy ein gwenfan